# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(95)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd yr 13 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 9 gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd.

### 3. Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2013-14

Dechreuodd yr eitem am 15.02

**NDM5090 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2013-14, fel y'i pennir yn Nhabl 1 "Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2013-14", a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 7 Tachwedd 2012 a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 (ii).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 4. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru'

Dechreuodd yr eitem am 15.14

**NDM5089 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Medi 2012.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15.50

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5092 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi swyddogaeth bwysig y stryd fawr yng Nghymru fel canolfan ar gyfer ymgysylltu cymunedol, rhoi hwb i economïau lleol a gwella balchder bro;

2. Yn nodi'r sialensiau sy'n wynebu'r stryd fawr yng Nghymru, gan gynnwys cyfraddau uchel o unedau gwag, y cynnydd mewn siopa ar y rhyngrwyd a datblygu canolfannau manwerthu ar gyrion trefi.

3. Yn nodi'r cynigion a amlinellir yn y papur polisi 'A Vision for the Welsh High Street'; a

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r cynigion a amlinellir yn 'A Vision for the Welsh High Street' a chyhoeddi ymateb yn rhoi manylion ynghylch sut y bydd yn ymgorffori'r cynigion hyn yn ei hadolygiad adfywio parhaus.

Mae linc i 'A Vision for the Welsh High Street' ar gael yma (Saesneg yn unig): http://www.welshconservatives.com/sites/www.welshconservatives.com/files/a_vision_for_the_welsh_high_street.pdf

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 36 | 46 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt 2 newydd ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn gresynu nad yw TAN 4: Manwerthu a Chanol Trefi wedi'i ddiweddaru ers datganoli.

Gellir gweld TAN 4 drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan4/?skip=1&lang=cy

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 24 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 4, a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, ''Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'', yn rhoi pwyslais cryf ar adfywio canol trefi; ac yn nodi ymhellach ymrwymiad Llywodraeth Cymru i archwilio holl opsiynau adfywio canol trefi gyda golwg ar gyhoeddi ei chynigion i gefnogi canol trefi yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw.'

Gallwch weld yr ymgynghoriad drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/consultations/businessandeconomy/vvp/?skip=1&lang=cy

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 22 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gan fod gwelliant 2 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ragor o bwerau i gymunedau liniaru ar effaith canolfannau siopa ar gyrion trefi ar siopau lleol, adfywio canol trefi lleol, a gostwng ardrethi busnes ar gyfer cyfleusterau cymunedol mewn canol trefi er mwyn annog ail-leoli.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen i ledaenu arfer gorau ym maes adfywio canol trefi ledled Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i gynnig gostyngiadau mewn ardrethi busnes i denantiaid sydd naill ai'n newydd i'r ardal neu sy'n ehangu busnes presennol, ac sy'n cymryd les eiddo sydd wedi bod yn wag am o leiaf 12 mis, fel ffordd o ddenu busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu i'r Stryd Fawr yng Nghymru er mwyn annog adfywio.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 0 | 41 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

**NDM5092 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi swyddogaeth bwysig y stryd fawr yng Nghymru fel canolfan ar gyfer ymgysylltu cymunedol, rhoi hwb i economïau lleol a gwella balchder bro;

2. Yn nodi'r sialensiau sy'n wynebu'r stryd fawr yng Nghymru, gan gynnwys cyfraddau uchel o unedau gwag, y cynnydd mewn siopa ar y rhyngrwyd a datblygu canolfannau manwerthu ar gyrion trefi.

3. Yn nodi'r cynigion a amlinellir yn y papur polisi 'A Vision for the Welsh High Street'; a

4. Yn nodi bod dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, ''Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'', yn rhoi pwyslais cryf ar adfywio canol trefi; ac yn nodi ymhellach ymrwymiad Llywodraeth Cymru i archwilio holl opsiynau adfywio canol trefi gyda golwg ar gyhoeddi ei chynigion i gefnogi canol trefi yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw.'

Gallwch weld yr ymgynghoriad drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/consultations/businessandeconomy/vvp/?skip=1&lang=cy

5. Yn galw am ragor o bwerau i gymunedau liniaru ar effaith canolfannau siopa ar gyrion trefi ar siopau lleol, adfywio canol trefi lleol, a gostwng ardrethi busnes ar gyfer cyfleusterau cymunedol mewn canol trefi er mwyn annog ail-leoli.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen i ledaenu arfer gorau ym maes adfywio canol trefi ledled Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 10 | 5 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16:52

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5091 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd diweddar mewn prisiau ynni ac yn gresynu wrth yr effaith a gaiff hyn ar bob aelwyd yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n dlawd o ran tanwydd;

2. Yn gresynu bod Llywodraeth y DU wedi methu â rheoleiddio'r farchnad ynni i ddiogelu'r rheini sy'n byw mewn tlodi tanwydd; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun i uwchraddio sgoriau effeithlonrwydd ynni holl stoc tai Cymru, gan flaenoriaethu'r rheini sy'n dlawd o ran tanwydd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 0 | 39 | 46 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi Bargen Werdd Llywodraeth y DU a fydd:

a) yn sicrhau, o dan y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni newydd, ei bod yn ofynnol i gwmnïau ynni ganolbwyntio eu cymorth ar y cartrefi tlotaf a mwyaf agored i niwed, yn ogystal â'r rheini mewn eiddo sy'n anodd eu trin sy'n methu â gwneud arbedion ariannol heb rywfaint o gymorth;

b) yn sicrhau y bydd llawer o bobl yn gallu ad-dalu costau cychwynnol gwaith inswleiddio eu cartrefi drwy gyfrwng biliau is o ganlyniad i welliannau i'w cartrefi; ac

c) yn sicrhau bod cwmnïau ynni'n cyfathrebu â'u cwsmeriaid i wneud yn siwr eu bod ar y tariff mwyaf addas yn unol â'u hanghenion;

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 10 | 7 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 3, dileu 'lunio cynllun i uwchraddio sgoriau effeithlonrwydd ynni holl' a rhoi yn ei le 'adeiladu ar y gwaith y mae'n ei wneud eisoes i uwchraddio sgoriau effeithlonrwydd ynni'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 15 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys fel pwynt 3 newydd ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio ar y cyd â Bargen Werdd Llywodraeth y DU i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi mai'r cynnydd sylweddol ym mhris cyfanwerthu nwy sy'n bennaf cyfrifol am y codiadau diweddar mewn prisiau ynni, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i fynd ar drywydd dulliau amgen o gynhyrchu ynni adnewyddadwy er budd y cyhoedd yng Nghymru ac i ddiogelu ffynonellau ynni'r wlad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 10 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu'n arw fod nifer y cartrefi mewn tlodi tanwydd yng Nghymru wedi codi o 28% i 33.5% rhwng 2008 a 2011.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 24 | 45 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni i helpu'r rheini sydd fwyaf mewn angen ac ar gyfer eiddo sy'n anos eu trin, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei chynlluniau effeithlonrwydd ynni ei hun yn cyd-fynd â'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yn hytrach na'i dyblygu'n ddiangen.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 7 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar bolisi Bargen Werdd Llywodraeth y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 1 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

**NDM5091 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd diweddar mewn prisiau ynni ac yn gresynu wrth yr effaith a gaiff hyn ar bob aelwyd yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n dlawd o ran tanwydd;

2. Yn nodi Bargen Werdd Llywodraeth y DU a fydd:

a) yn sicrhau, o dan y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni newydd, ei bod yn ofynnol i gwmnïau ynni ganolbwyntio eu cymorth ar y cartrefi tlotaf a mwyaf agored i niwed, yn ogystal â'r rheini mewn eiddo sy'n anodd eu trin sy'n methu â gwneud arbedion ariannol heb rywfaint o gymorth;

b) yn sicrhau y bydd llawer o bobl yn gallu ad-dalu costau cychwynnol gwaith inswleiddio eu cartrefi drwy gyfrwng biliau is o ganlyniad i welliannau i'w cartrefi; ac

c) yn sicrhau bod cwmnïau ynni'n cyfathrebu â'u cwsmeriaid i wneud yn siwr eu bod ar y tariff mwyaf addas yn unol â'u hanghenion;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio ar y cyd â Bargen Werdd Llywodraeth y DU i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adeiladu ar y gwaith y mae'n ei wneud eisoes i uwchraddio sgoriau effeithlonrwydd ynni stoc tai Cymru, gan flaenoriaethu'r rheini sy'n dlawd o ran tanwydd.

5. Yn nodi mai'r cynnydd sylweddol ym mhris cyfanwerthu nwy sy'n bennaf cyfrifol am y codiadau diweddar mewn prisiau ynni, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i fynd ar drywydd dulliau amgen o gynhyrchu ynni adnewyddadwy er budd y cyhoedd yng Nghymru ac i ddiogelu ffynonellau ynni'r wlad.

6. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni i helpu'r rheini sydd fwyaf mewn angen ac ar gyfer eiddo sy'n anos eu trin, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei chynlluniau effeithlonrwydd ynni ei hun yn cyd-fynd â'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yn hytrach na'i dyblygu'n ddiangen.

7. Yn annog Llywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar bolisi Bargen Werdd Llywodraeth y DU.

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **36** | **0** | **10** | **46** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.50

**7. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.58

**NDM5093 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd):**

Bondiau Effaith Gymdeithasol a Phlant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru

Archwilio ffordd newydd o ddarparu gwasanaethau sy'n gallu lleihau nifer y plant a dderbynnir i ofal awdurdodau lleol yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:19

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2012**